PWYLLGOR PENODI

DYDD GWENER, 25 MAI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Goodway(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, Mackie, Weaver a/ac Walker |

17 : YMDDIHEURIADAU (OS OES RHAI)

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

19 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

*Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.*

20 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

21 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth am yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i'r aelodau'r cyhoedd petaent yn bresennol yn ystod y drafodaeth: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

22 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL - LANDLORD CORFFORAETHOL

Cafodd y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Landlord Corfforaethol ei ailymgynnull i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r cam Canolfan Asesu.

Gwnaeth Amanda Pigny, yr Aseswr Allanol Arweiniol, gyflwyno trosolwg ar bob un o'r pedwar ymgeisydd oedd wedi cyflawni'r ymarferion yn y ganolfan asesu, ac roedd y rhain wedi'u sgorio yn erbyn cymwyseddau ymddygiadol y swydd.

Roedd Ymgeisydd 11 wedi tynnu nôl o'r broses.

Ystyriodd y pwyllgor, ar sail y meini prawf hanfodol, y canlyniadau asesu a ffurflenni cais gwreiddiol yr ymgeiswyr, ba ymgeiswyr y dylid eu gwahodd i gyfweliad ffurfiol.

PENDERFYNWYD –

(1) gwahodd ymgeiswyr 6, 8 a 9 i gyfweliad.

(2) yr ymgeiswyr yn cael gwybod testun y cyflwyniad ac y byddent yn cael uchafswm o 10 munud ar gyfer y cyflwyniadau hynny.

(3) llunio’r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld.

## 23 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o’r broses creu rhestr hir.

## 24 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Mae’r cyfarfod nesaf wedi’i drefnu ar gyfer dydd Gwener 8 Mehefin 2018 am 9.00am.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am